COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 6 o RAGFYR 2021 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Tracey James,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams,Meic Bowen,Margaret Rees a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Aled Williams,Geraint Rosser a Geoff Hewitt.

2705 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyfeiriwyd at dostrwydd Heddwyn Jones a dymunwyd adferiad buan iddo.

2706 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 01/11/2021 fel rhai cywir.

2707 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir. Wedi trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir argymell y Perchennog i ddymchwel yr Adeilad cyn gynted â phosibl

Tud 1. Cofnod Rhif 2687- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 1. Cofnod Rhif 2687 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2694 – Parcio wrth Fferyllfa Pontiets – Mae'r mater yn cael ei monitor gan yr Heddlu.

Tud 2. Cofnod Rhif 2703 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Alan Lewis yn y Gadair

Cynghorwyr Tyssul Evans,Linda Williams,Ian Evans,Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2708 Eisteddfod yr Urdd,Sir Gaerfyrddin 2023 - Apêl Leol - Penderfynwyd danfon y cyfraniad olaf o £1000. i'r Pwyllgor Apêl Leol.

Tyssul,Linda,Ian a Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Linda Williams yn y Gadair.

2709 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2710 Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2711 CISS – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwyr Tyssul Evans,Ian Evans, a Tracey James yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2712 Ffederasiwn Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phonthenri – Cardiau Nadolig i'r Gymuned– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £150 tuag at y fenter.

Tyssul,Ian a Tracey yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2713 Ysgol y Fro – Cardiau Nadolig i'r Gymuned – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £60 tuag at y fenter.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2714 Carway Short Mat Bowls– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2715 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Neuadd Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2716 Apel Nadolig y Cyngor Sir – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2717 Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2022-23. Nodwyd y Llythyr.

2718 Cadwch Gymru'n Daclus - Posteri Ymgyrch Baw Cwn - Penderfynwyd archebu 50 o'r ddau boster.

Ceisiadau Cynllunio

2719

a) Rhif y Cais - PL/02879 – 13 & 14, Heol Nasareth,Pontiets– Adnewyddu'r adeilad gefn – Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais - PL/02929 - Trout Brook,Pontantwn - Estyniad a Thŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.
c) Rhif y Cais – PL/02948 – Plot 6, Heol Mansant,Pontiets – Byngalo a Garej – Dim Gwrthwynebiad.

Ch) Rhif y Cais - PL/02994 - Hengoed,Pedair Heol -Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.
d) Rhif y Cais - PL/03027 – 112,Maes Glas,Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
dd) Rhif y Cais – PL/03052 – Gorsaf Dan Pontiets – Bocs Stordy – Dim Gwrthwynebiad.
e) Rhif y Cais – PL/03056 – 162,Heol y Meinciau, Pontiets – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2720 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2721 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Tachwedd .Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2722 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Tachwedd)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Tachwedd)

ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Tachwedd)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Tachwedd)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Tachwedd)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Tachwedd) £182.00
f) Excel Electrics – Gwaith ym Marc Carwe – £288.00
ff) DTH Walters – Gwaith ym Marc Pontiets - £600.00
g) Royal British Legion - Pabi Coch - £15.00
ng) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau - £7.41
h) Glyndwr Prideaux - Papur Llungopïo - £14.95
(i) Trydan - Parc Carwe - £175.81
(l) Marcus Dininno – Gwaith yn Nhoiledau'r Meinciau - £50.00
(m) Justin Gravell – Gwaith ym Marc Pontiets - £289.00
(n) SLCC – Aelodaeth - £112.00
(o) ALCC – Aelodaeth - £40.00

2723 Is-bwyllgor Cyllid – 18/11/21
Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd derbyn y canlynol :-

1. **Cyflog y Clerc -** Penderfynwyd bod Cyflog y Clerc yn codi i raddfa pwynt 26 a hynny o Fis Medi 2021, sef cynnydd o £20 y mis. Gyda'r cyflog blynyddol yn awr yn £5800.56. Mi fydd cyflog Syrfëwr yn codi £100 y flwyddyn i £1500. Cytunwyd y byddai Cyflog y Clerc yn cael ei adolygu ym Mis Mawrth o hyn ymlaen.

2. **Cyllideb 2022-23** – Penderfynwyd ein bod codi Lwfans y Cadeirydd I £400 y flwyddyn.

3. **Toiledau'r Meinciau –** Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod angen Drws newydd ar y Stordy. Penderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith.

4. **Parc Pontiets -** Wedi trafodaeth penderfynwyd ein bod yn gosod arian cyfatebol o 20%, gydag uchafswm o £10,000 am y flwyddyn 2022-2023 tuag at adnewyddu cyfarpar yn y Parc. Gofynnir I Bwyllgor Gwella'r Parc i wneud cais i'r Cyngor Cymuned am yr arian hwn ar ôl derbyn yr arian grant. Nodwyd ein bod eisoes wedi gwario arian ar ail wneud y wyneb o dan y siglenni ac am glirio'r clawdd a'r llwyn.Cyfanswm o £5860.00. Rydym hefyd yn y broses o osod ffens Newydd ar y Parc ar gost o £8296.66. Argymhellwyd ein bod yn gofyn i Wicksteed neud y Gwaith hwn. Cyfanswm o £14156.66 a gyda'r arian cyfatebol o £10000 mi fydd y swm terfynol yn £24156.66.

5. **Presept 2022/2023 -** Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Meic Bowen ac eiliwyd gan Tracey James ein bod yn codi'r Praesept 12.5% y flwyddyn am 2022 – 2023

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

6. **Parc Carwe –** Nodwyd fod angen offer Newydd ar y Parc hwn hefyd. Angen gwneud cais am arian Cytundeb 106 a Loteri Genedlaethol 'Awards for All'

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2724 Diffibriliwr Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod ceisiadau wedi eu gwneud trwy Achub Bywyd Cymru am Ddiffibrillwyr yn y mannau isod:-

A) Festri Moreia Meinciau
B) Festri Ebeneser Crwbin
C) Ty Capel Salem Pedair Heol
D) Y Lodge,Pontantwn
E) Felin y Glyn,Pontnewydd

Cyfarfod nesaf:- 10ed Ionawr 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……